Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

O Syniad i Effaith: Taith Arloesi

Mae Cymru'n cynnig amgylchedd cefnogol a chysylltiedig ar gyfer arloesi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. O syniadau cynnar i fabwysiadu ar draws y system, gall arloeswyr gael gafael ar gyllid, partneriaethau ymchwil ac ymgysylltu â'r GIG ar bob cam. Mae'r Daith Arloesi yn nodi'r llwybr nodweddiadol y gallai syniad ei ddilyn, o'r cysyniad cychwynnol, drwy gamau ymchwil a datblygu, i fasnacheiddio, cyn cael ei fabwysiadu yn y pen draw mewn lleoliadau yn y byd go iawn. Nod y canllaw hwn yw helpu arloeswyr i ddeall beth sy'n gysylltiedig â phob cam, gyda phwy i ymgysylltu, a sut gall Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru helpu i symud eich syniadau ymlaen yn gyflymach tuag at gael effaith ystyrlon yn y byd go iawn.

Syniad

Mae pob datblygiad arloesol yn dechrau pan fydd rhywun yn gofyn: *"A oes ffordd o'i wella?"*

Diffiniwch yr angen clinigol yn glir ac esbonio sut mae eich syniad yn mynd i'r afael ag ef. Cefnogwch eich achos gyda thystiolaeth cam cynnar, megis dadansoddi'r farchnad, datblygu cysyniadau, asesiadau dichonoldeb, ac arolygon defnyddwyr neu randdeiliaid.
Gyda phwy y dylid ymgysylltu: Cleifion, gofalwyr, clinigwyr, partneriaid academaidd a diwydiant, arweinwyr arloesi, tîm Gwybodaeth am y Farchnad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

Ymchwil

Deall y broblem ac edrych ar atebion cynnar

Cadarnhau'r broblem, deall anghenion y defnyddiwr, a chynhyrchu tystiolaeth gychwynnol i gefnogi a dilysu'r datblygiad. Mae allbynnau'n cynnwys ymchwil defnyddwyr, adolygiadau llenyddiaeth, tirlunio technoleg, profi cysyniad ac ymchwil diogelwch, a phrofion cyn-glinigol (e.e. efelychiadau neu in vitro, TRL 2-3).
Gyda phwy y dylid ymgysylltu: Timau ymchwil y brifysgol, ymchwilwyr clinigol, defnyddwyr terfynol, grwpiau ffocws cleifion, rhwydweithiau arloesedd, tîm cyllido Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

Datblygu

Symud o brototeip i gynnyrch go iawn

Mae'r arloesedd yn cael ei werthuso a'i fireinio drwy adborth gan ddefnyddwyr ac yn cael ei brofi mewn lleoliadau clinigol i sicrhau diogelwch, defnyddioldeb ac effeithiolrwydd (TRL 4-6). Mae allbynnau'n cynnwys cynnyrch gweithredol, cymeradwyaeth reoleiddiol lle bo hynny'n briodol, diogelu eiddo deallusol ac economeg iechyd cynnar.
Gyda phwy y dylid ymgysylltu: Timau dylunio a datblygu, arbenigwyr rheoleiddio, mannau profi neu beilot y GIG, arweinwyr caffael a thîm economeg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

Masnacheiddio

Datblygu'r llwybr i'r farchnad

Mae'r cam hwn (TRL 7-8) yn canolbwyntio ar gwblhau'r model busnes, a'r strategaeth mynd i'r farchnad. Sicrhau bod yr holl dystiolaeth yn dangos gwerth o'i gymharu â gofal safonol. Mae'r allbynnau'n cynnwys cwblhau trwyddedu rheoleiddiol ac eiddo deallusol, ymgysylltu â chlinigwyr, marchnata a hyfforddi, a pharodrwydd i gaffael. Gyda phwy y dylid ymgysylltu: Cynghorwyr datblygu busnes, systemau gofal integredig neu dimau gofal sylfaenol, rhwydweithiau arloesi ym maes iechyd, timau marchnata a chaffael, a thîm cyflawni prosiectau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

Graddfa a Mabwysiadu

Profi gwerth ac effaith yn y byd go iawn
Mae'r ffocws yn newid i raddio ar draws systemau, meithrin ymddiriedaeth gyda defnyddwyr, a dangos gwerth yn y byd go iawn (TRL9), drwy astudiaethau achos a chanlyniadau cyhoeddedig. Mae twf yn cael ei gefnogi drwy gasglu data yn barhaus, gwerthuso, partneriaethau strategol, ac addasu'r arloesedd i'w ddefnyddio'n ehangach, a lleoliadau newydd. Gyda phwy y dylid ymgysylltu: Byrddau iechyd, partneriaid strategol, arweinwyr polisi a thrawsnewid, timau gwerthuso yn y byd go iawn, a thîm partneriaethau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn chwarae rhan ganolog ar y daith arloesi. P'un a ydych chi ar ddechrau syniad neu'n barod i ddatblygu eich datrysiad, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn eich helpu i symud ymlaen yn hyderus, i gydweithio'n ddoethach, ac i gael effaith lle mae hynny bwysicaf. Rydym yn darparu:

- **Cyngor arbenigol** i helpu i ddatblygu eich syniad a nodi'r camau nesaf
- **Mewnbwn strategol** i gysoni eich datblygiad arloesol ag anghenion a blaenoriaethau'r system
- **Gwybodaeth am y farchnad** fel sganio'r gorwel ac adroddiadau sganio cyflym
- **Canllawiau ar gyfleoedd cyllido** fel cyfeirio ac adolygu cynigion
- **Cysylltiadau â'r GIG a phartneriaid gofal** ar gyfer cyd-ddatblygu a phrofi
- **Cymorth i lywio llwybrau mabwysiadu** o fewn GIG Cymru
- **Mynediad at rwydweithiau arloesedd,** cydweithredwyr academaidd, ac adnoddau masnacheiddio
- **Cymorth economaidd** i ddangos gwerth a llywio penderfyniadau